

Dr Huw T. Edwards (1892 – 1970)

Prif Weinidog Answyddogol Cymru

Yn unol â'r disgwyl, ymgasglodd cynulleidfa niferus a brwdfrydig yn Y DRWM ar nos Wener, 13 Gorffennaf ar gyfer achlysur lansio cofiant gwleidyddol hynod bwysig yn yr iaith Gymraeg. Testun y gyfrol yw'r Dr Huw T. Edwards (1892 – 1970), asiant gwleidyddol a swyddog undeb llafur adnabyddus ledled gogledd Cymru a ddewiswyd fel cadeirydd cyntaf Cyngor Cymru a Mynwy ym 1949.

Awdur y cofiant ysblennydd hwn yw Gwyn Jenkins, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus y Llyfrgell Genedlaethol ers 2002 a Cheidwad y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau yno am ddeng mlynedd cyn hynny. Gan iddo gychwyn ar ei ymchwil yn y 1980au,

roedd modd iddo gyfweled nifer o gyfeillion gwleidyddol a ffrindiau personol Huw T, pob un o'r rhain yn drist iawn wedi marw yn y cyfamer. Dengys y gyfrol ôl gwaith ymchwil eang, hynod ofalus sydd yn cynnwys deunydd archifol, papurau newydd a llawer o ffonellau eilradd amrywiol. Llwyddodd yr awdur i weu'r cyfan i mewn i destun darllenadwy, gafaelgar sydd yn gyfraniad pwysig at ein dealltwriaeth o gwrs astrus gwleidyddiaeth Cymru canol yr ugeinfed ganrif. Brithir y gyfrol â nifer o luniau pwrpasol a chynhyrchwyd llyfr hynod ddeniadol gan Wasg y Lolfa, Talybont. Pris y llyfr yw £14.95 yn unig.

Prif Weinidog Answyddogol Cymru

John Clement (1920 – 2007)

Pwyllgor Ymgynghorol yr AWG

Tudalennau we LIGC

Etholiadau'r Cynulliad

Siop Heddwch

Papurau Rhodri Morgan

Dyddiaduron y Glymblaid

Astudiaethau ar ddatganoli

Arddangosfa'r Canmlwyddiant

Y Fonesig White o Rymni

Papurau Clive Betts

Cyfweliadau gwleidyddol

Darlith yr Arglwydd Crickhowell

Derbyniadau eraill

John Clement (1920 – 2007)

Bu John Clement, aelod ffyddlon o bwyllgor yr AWG rhwng 1987 a 1995, farw ar 24 Mai yn 86 oed. Yn fab i löwr o Felindre ger Abertawe, gwasanaethodd John Clement gyda'r awyrlu yn ystod y Rhyfel. Wedi'r Rhyfel datblygodd ei yrfa yn y gwasanaeth sifil, yn benodol yn y Weinyddiaeth Dai a Llywodraeth Leol ac yn ddiweddarach yn y Swyddfa Gymreig.

Roedd ei gyfraniad at ddatblygiad datganoli yng Nghymru yn sylweddol, yn arbennig drwy ei gyfraniad at Drydydd Memorandwm Cyngor Cymru (1957) a arweiniodd at sefydlu'r Swyddfa Gymreig.

Ef oedd ysgrifennydd y Cyngor ar y pryd, gan ymgymryd â'r gwaith ymchwil a roddai awdurdod i'r ddogfen. Ganol yr 1960au gwasanaethodd fel Ysgrifennydd Preifat i'r Ysgrifennydd Gwladol, Cledwyn Hughes, ac yna daeth yn Is-Ysgrifennydd â chyfrifoldeb am gynllunio economaidd yn y Swyddfa Gymreig.

Darlith Flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig

'Cysgu gyda'r Gelyn: yr undebau llafur yng Nghymru yn ystod blynyddoedd Thatcher' David Jenkins

Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Gwener 2 Tachwedd 2007, 5.30pm

Pwyllgor Ymgynghorol yr AWG

Bu pwyllgor ymgynghorol yr Archif Wleidyddol Gymreig yn cyfarfod am y 38fed tro ar brynhawn Gwener, 3 Tachwedd 2006. Penderfynwyd yn unfrydol i wahodd yr Arglwydd Elystan-Morgan, AS Llafur Sir Ceredigion rhwng 1966 a Chwefror 1974, i draddodi darlith drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn Nhachwedd 2008. Cytunodd yr Arglwydd Elystan-Morgan yn garedig iawn i siarad ar y thema 'Ambell Atgof Wleidyddol' ar 7 Tachwedd 2008 – dyddiad ar gyfer eich dyddiaduron!

Yn ystod y cyfarfod o'r pwyllgor, mynegodd Mr Ian Barton ei awydd i ymddeol – ar ôl nifer o flynyddoedd o aelodaeth ffyddlon a theyrngar. Olynydd Mr Barton, i gynrychioli'r Democrataid Rhyddfrydol, yw'r Dr Russell Deacon, Darllenydd mewn Gwleidyddiaeth yn Sefydliad Prifysgol Cymru, Caerdydd, ac awdur y gyfrol *The Governance of Wales: the Welsh Office and the Policy Process, 1964-99* (Caerdydd, 2002). Mae'r Dr Deacon ar fin gorffen llunio'r gyfrol gyntaf i gronico hanes y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru'r ugeinfed ganrif, llyfr i'w gyhoeddi'n fuan gan Wasg Academaidd Cymru.

Mae'r Arglwydd Rowlands, gynt Mr Ted Rowlands, AS Llafur Gogledd Caerdydd, 1966 – 70, a Merthyr Tudful (Merthyr Tudful a Rhymni wedi hynny) rhwng 1972 a 2001, hefyd wedi cytuno i ail-ymuno â'r pwyllgor. Bu'r Arglwydd Rowlands yn aelod gweithgar ac egniol o'r pwyllgor yn ystod yr 1980au, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at ei gwmni a'i gyfraniad unwaith eto.

Tudalennau we LIGC

Yn ystod gwanwyn 2007 aethpwyd ati i ailwampio a chynyddu'n sylweddol tudalennau we LIGC. Manteisiwyd ar y cyfle i osod nifer fawr o luniau a darluniau allan o gasgliadau LIGC, a bwriedir eu newid o bryd i'w gilydd yn y dyfodol. Gweithgareddau'r Archif Wleidyddol Gymreig yw thema chwech o'r tudalennau hyn. Gellir eu gweld ar wefan y Llyfrgell www.llgc.org.uk/index.php?id=503&L=1.

Siop Heddwch

Drwy garedigrwydd Mr George Crabb, derbyniwyd archifau'r Siop Heddwch nodedig yng Nghaerdydd, a gaeodd ei drysau'n ddiweddar. Ceir yn eu plith ffeiliau gohebiaeth, cofnodion ariannol, adroddiadau blynyddol, cyhoeddiadau a defnyddiau cyhoeddusrwydd yn ymwneud â digwyddiadau a gweithgareddau a drefnwyd gan y Siop Heddwch. Mae'r cofnodion yn gymar naturiol i nifer o archifau eraill yng ngofal yr AWG.

Etholiadau'r Cynulliad

Diolch i gefnogaeth ddi-ffael ein rhwydwaith o gysylltwyr ym mhob etholaeth ledled Cymru a pharodrwydd pencadlysoedd Cymreig y pleidiau gwleidyddol i'n cynorthwyo, llwyddwyd i gasglu set gyflawn bron o'r holl fanifestos, anerchiadau etholiad, taflenni a phosteri bychain a ddsbarthwyd drwy Gymru ar gyfer trydydd etholiadau y Cynulliad Cenedlaethol, 3 Mai 2007.

Ychwanegwyd hwy at y Casgliad Effemera Gwleidyddol Gymreig fel cyfres BD3. Maent eisoes ar gael i ddarllenwyr. Recordiwyd rhaglenni teledu a radio perthnasol gan Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru.

Why people are backing Rhodri's Labour team to build a better Wales

Better for families

With Labour, families will be better off. Voting Labour will mean more childcare, better school kitchens, healthier school meals and more free breakfasts in primary schools. Prescriptions will be kept free and families will get more money for baby bonds.

Use your votes to help to build a better Wales. Vote Labour on Thursday 3 May.

Taflen Rhodri Morgan AC yn Etholiad Cynulliad 2007

Croeso i bawb

Sefydlwyd yr Archif Wleidyddol Gymreig yn 1983 i gydlynu'r gwaith o gasglu tystiolaeth ddogfennol o bob math am wleidyddiaeth Cymru. Cesglir cofysgrifau a phapurau pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion, mudiadau lled-wleidyddol, ymgyrchoedd a charafanau pwyso; taflenni, pamffledi, ac effemera printiedig eraill; poster i ffotograffau; a thâpiau rhaglenni radio a theledu.

Am fwy o wybodaeth cysyllter â:

Dr. J. Graham Jones
Yr Archif Wleidyddol Gymreig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion
Cymru SY23 3BU
Ffôn: 01970 632866
Ffacs: 01970 632883
jgj@llgc.org.uk
www.llgc.org.uk/lc/awg_c_awg.htm

Papurau Rhodri Morgan

Roedd y Llyfrgell yn arbennig o falch i dderbyn grŵp o bapurau gwleidyddol, a fu gynt ym meddiant Portcullis House, San Steffan, a gasglodd Rhodri Morgan fel AS Llafur Gorllewin Caerdydd rhwng 1987 a 2001. Ceir yn eu plith ffeiliau o ohebiaeth yn ymdrin â nifer o fesurau a deddfau seneddol, pwyllgorau (gan gynnwys pwyllgorau dethol seneddol) a gweithgoreu yr eisteddai'r rhoddwr arnynt, a nifer o ffeiliau pwnc. Ceir deunydd hefyd yn tarddu o deithiau tramor swyddogol Mr Morgan. Y gobaith yw y bydd modd sicrhau ei bapurau'n ymwneud â'r Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol agos.

Dyddiaduron y Glymblaid


Llwyddodd y Llyfrgell i brynu pedair cyfrol gyhoeddedig *The Coalition Diaries and Letters of H. A. L. Fisher, 1916 – 1922: the Historian in Lloyd George's Cabinet*, a olygwyd gan Dr F. Russell Bryant, gynt o Brifysgol Alabama. Penodwyd Fisher yn Llywydd y Bwrdd Masnach gan Lloyd George pan ddaeth yn Brif Weinidog yn Rhagfyr 1916, a chwaraeodd ran ganolog yn paratoi Deddf Addysg 1918. Bu'n cydweithio'n agos â Lloyd George drwy gydol ei gyfnod fel Prif Weinidog a cheir llawer iawn o ddeunydd anarferol o ddiddorol yn ei ddyddiaduron, gan gynnwys ambell gyfeiriad at wleidyddiaeth Cymru.

Astudiaethau ar ddatganoli

Cyhoeddwyd dwy astudiaeth sylweddol ar ddatganoli yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ffrwyth y prosiect ymchwil a noddwyd gan yr ESRC yw'r gyfrol gyntaf. Arolygwyr y prosiect oedd Duncan Tanner, Bangor a Chris Williams, Abertawe. Teitl y llyfr yw *Debating Nationhood and Governance in Britain, 1995-1945: Perspectives from the 'Four Nations'* (Gwasg Prifysgol Manceinion, 2006), ac fe'i olygwyd gan Duncan Tanner, Chris Williams, Wil Griffith ac Andrew Edwards. Ceir deg ysgrif ddysgedig ynnddi ar wahanol agweddau ar ddatganoli o fewn y Deyrnas Unedig.

Mae tair ysgrif ysgolheigaidd gan Wil Griffith, Andrew Edwards a Chris Williams yn trafod galwadau am ddatganoli yng Nghymru, unoliaeth genedlaethol Gymreig, llywodraeth a materion yn ymdrin â chenedligrwydd a dosbarth yng Nghymru rhwng 1885 a diwedd yr Ail Ryfel Byd. Mewn astudiaeth arbennig o werthfawr mae Duncan Tanner yn trafod agwedd y Blaid Lafur Brydeinig at ddatganoli o adeg sefydlu'r blaid ym 1900 hyd at 1945. Mae'n debygol y cyhoeddir ail gyfrol, wedi ei neilltuo ar gyfer hanes datganoli ar ôl 1945, yn ystod y flwyddyn 2009.

Un o'r cyfrolau diweddaraf yn y gyfres nodedig 'Studies in Welsh History' a gyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru yw John Gilbert Evans, *Devolution in Wales: Claims and Responses, 1937-1979* (Caerdydd, 2006). Mae'r llyfr yn astudiaeth arloesol o'r ceisiadau am ddatganoli yn ystod cyfnod allweddol ac ymatebion amrywiol un llywodraeth ar ôl y llall. Yn ystod cwrs ei ymchwil, a wnaeth yn ystod y 1980au, bu'r awdur yn gwneud defnydd helaeth o nifer o ddaliadau'r Archif Wleidyddol Gymreig.



Arddangosfa'r Canmlwyddiant

Ar 19 Mawrth 2007 dathlodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ganmlwyddiant cyflwyno siarter brenhinol ar gyfer sefydlu'r Llyfrgell gan Edward VII. Ar yr un adeg arwyddwyd siarter brenhinol i sefydlu Amgueddfa Genedlaethol Cymru.



Fel canlyniad trefnodd y Llyfrgell raglen amrywiol o ddiwyddiadau drwy gydol y flwyddyn 2007 gan gynnwys cyhoeddiadau yn Saesneg gan Trevor Fishlock ac yn y Gymraeg gan Mererid Hopwood, rhaglen amrywiol o ddarlithiau, nifer o raglenni ar y teledu a'r radio, ac arddangosfa sylweddol yn Oriel Gregynog ac Ystafell Peniarth lle dangosir hefyd nifer o ffilmiau ac yn eu plith un o'r Frenhines yn ymweld â'r Llyfrgell ym mis Mai 1955. Ar 4 Gorffennaf 2007, dadorchuddiwyd plac ar wal yr Hen Ystafelloedd Ymgynnull, sef rhif 10 Maes Lowri, Aberystwyth – lleoliad gwreiddiol y Llyfrgell Genedlaethol cyn cychwyn adeiladu ar safle Penglais.

Ceir o fewn arddangosfa'r canmlwyddiant cryn dipyn o ddeunydd o ddiddordeb gwleidyddol, gan gynnwys dyddiadur gwreiddiol Lloyd George ar gyfer y flwyddyn 1886 a llythyr ganddo, Rhagfyr 1916,

at ei frawd William. Ceir hefyd llyfr cofnodion cyntaf y Blaid Genedlaethol Gymreig sydd yn dyddio yn ôl i 1925, a llythyr oddi wrth Saunders Lewis, hefyd o'r flwyddyn 1925, yn trafod ffurfio'r blaid newydd. Ceir copi yn llaw Saunders Lewis o'i araith ym Mrawdlys Caernarfon 1936 yn dilyn llosgi'r ysgol fomio ym Mhenyberth, a deunydd yn ymdrin â swyddogaeth Stanley Baldwin adeg y Streic Gyffredinol 1926 ymhlith papurau Dr Thomas Jones CH. Mae'r arddangosfa yn cynnwys nifer fawr o daflenni ac anerchiadau etholiad, ffotograffau a phosteri o ddiddordeb gwleidyddol. Gellir hefyd gwyllo hen ffilmiau hanesyddol bwysig o fodd Capel Celyn ym 1965 a buddugoliaeth Gwynfor Evans yn isetholiad sir Gaerfyrddin, Gorffennaf 1966.



Y Fonesig White o Rymni

Drwy gydweithrediad parod teulu'r diweddar Mr Howard Moore, Y Fenni, derbyniwyd grŵp bychan ychwanegol o bapurau Eirene White, y Fonesig White o Rymni (1909-99).

Ceir yn eu plith cyfresi o ohebiaeth, gan gynnwys llythyrau diddorol rhwng y Fonesig White a'i gwr y diweddar Mr John White, llawer yn ystod ei theithiau tramor swyddogol. Ceir llythyrau hefyd at John White oddi wrth newyddiadurwyr eraill, torion o'r wasg a deunydd printiedig. Ychwanegwyd y cyfan at bapurau'r Fonesig White.

Drwy gydweithrediad parod teulu'r diweddar Mr Howard Moore, Y Fenni, derbyniwyd grŵp bychan ychwanegol o bapurau Eirene White, y Fonesig White o Rymni (1909-99). Ceir yn eu plith cyfresi o ohebiaeth, gan gynnwys llythyrau diddorol rhwng y Fonesig White a'i gwr y diweddar Mr John White, llawer yn ystod ei theithiau tramor swyddogol. Ceir llythyrau hefyd at John White oddi wrth newyddiadurwyr eraill, torion o'r wasg a deunydd printiedig. Ychwanegwyd y cyfan at bapurau'r Fonesig White.

Derbyniadau eraill

Mae'r derbyniadau eraill a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Cofnodion bwrdd ymgynghorol **Bwrdd yr Iaith Gymraeg** yn dyddio o'r 1970au hyd at 1990, gan gynnwys deunydd yn trafod paratoi deddfwriaeth a nifer o weithgorau.
- Gohebiaeth a phapurau ychwanegol y diweddar **Athro Phil Williams**, Aberystwyth (1939 – 2003), llawer o ddi-ddordeb gwleidyddol neu wyddonol, amryw yn adlewyrchu trefniadaeth a gweithgareddau Plaid Cymru dros gyfnod maith.
- Mr Lee Waters: copi o **Deddf Llywodraeth Cymru, 1998**,

wedi ei arwyddo gan Ron Davies a nifer o wleidyddion Cymreig blaenllaw eraill. Fe'i cynhwyswyd yn arddangosfa Canmlwyddiant LIGC.

- Dr Guto Thomas: crynoddsgiau o gyfweiliadau gyda'r **Arglwydd Harlech**, y llysgennad Prydeinig i Washington yn y 1960au cynnar. Cedwir y cyfweiliadau gwreiddiol yn Llyfrgell John F. Kennedy, Boston.
- Yr Athro Duncan Tanner: deunydd o blith archifau'r Swyddfa Gartref yn yr Archifau Cenedlaethol yn ymddrin ag **Arwisgo 1969** yng nghastell Caernarfon.
- Mr David Melding: tri phapur trafod, a gyhoeddwyd yn 2005, ar 'Y Blaid Geidwadol a'r genedl Gymreig'; 'Undebaeth o fewn gwlad amlgenhedlig'; a 'Datganoli: y frwydr a chollwyd ac a enillwyd'.
- Cytundebau, 1922, yn ymddrin â chyhoeddi War Memoirs Lloyd George, gan gynnwys hawliau cyhoeddi o fewn yr Ymerodraeth Brydeinig ac yn yr Unol Daleithiau.
- Cynghorydd David Mayer: llythyrau, 1956 – 1957, a deunydd printiedig, 2005 – 2006, yn ymddrin â gweithgareddau **Plaid Lafur Gorllewin Casnewydd**.
- Chwe chyfrol rwymedig o'r dystiolaeth a chyflwynwyd i **Gomisiwn Richard** ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Anerchiadau a thafenni etholiadol yn tarddu o'r ddwy isetholiad yn etholaeth **Blaenau Gwent**, 29 Mehefin 2006.

Papurau Clive Betts

Mae Mr Clive Betts wedi ychwanegu grŵp sylweddol iawn o ddatganiadau i'r wasg a thorion papur newydd a gasglodd yn ystod ei waith dros Clive Betts Associates yn ystod y blynyddoedd olaf. Mae'r mwyafrif yn ymwneud â bywyd gwleidyddol Cymru, llawer yn trafod gwaith a gweithgareddau'r Cynulliad Cenedlaethol. Ychwanegwyd hwy at yr archif helaeth iawn Clive Betts sydd eisoes yng ngofal LIGC.

Cyfweiliadau gwleidyddol

Mae Mr Cedwyn Aled yn garedig iawn wedi cyflwyno i'r Llyfrgell nifer fawr o dapiau o gyfweiliadau hir a wnaeth gyda nifer o wleidyddion blaenllaw yng Nghymru rhwng 2003 a 2005 pan roedd wrthi'n paratoi'r ddwy gyfres deledu arloesol *Wales and War* a *Wales in Our Time*. Mae'r cyfweiliadau gwreiddiol llawer iawn yn hwy na'r darnau a ddarlledwyd ar y teledu. Ymhlith y gwleidyddion a gafodd gyfweiliad oedd Leo Abse, Yr Arglwydd Callaghan o Gaerdydd (y cyfweiliad ffurfiol olaf a roddodd erioed), Yr Arglwydd Crickhowell, Ron Davies, Michael Foot, Yr Arglwydd a'r Arglwyddes Kinnock, Alun Michael, Rhodri Morgan, Yr Arglwydd Morris o Aberafan, Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas a Dafydd Wigley. Mae'r tapiau hyn oll yng ngofal Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru o fewn y Llyfrgell.

Darlith yr Arglwydd Crickhowell

Ar nos Wener, 3 Tachwedd 2006, cynhaliwyd ugeinfed ddarlith flynyddol yr AWG yn Y DRWM, Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y darlithydd oedd yr Arglwydd Crickhowell a draethodd ar y thema 'Y Blaid Geidwadol a Chymru, 1888 – 1998'. Ymgasglodd cynulleidfia niferus i glywed darlith afaelgar gan Nicholas Edwards a wasanaethodd fel AS Ceidwadol dros Sir Benfro o 1970 tan 1987 ac fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, 1979 – 87, cyfnod allweddol pan fu Margaret Thatcher yn Brif Weinidog. Dyfarnwyd iddo iarllaeth am oes yn 1987 pan ddaeth yn Farwn Crickhowell o Bont Esgob, a mae'n aelod blaenllaw o Dŷ'r Arglwyddi. Mewn darlith gryno, ail-edrychodd y siaradwr ar rai o'r themâu a drafodwyd ganddo'n yn ei gofiant adnabyddus *Westminster, Wales and Water* (Caerdydd, 1999). Bu'n ymweld ag LIGC o'r blaen i agor trydedd storfa lyfrau LIGC ym mis Mawrth 1982.

Dechreuodd yr Arglwydd Crickhowell drwy ddadansoddi agwedd rhai haneswyr at record y Blaid Geidwadol yng Nghymru, ac yna ail-edrychodd ar y record yna o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, yn fwyaf arbennig mewn cysylltiad â datgysylltu'r eglwys yng Nghymru a newidiadau ym myd addysg. Cyfeiriodd at bolisiau Cymreig y blaid drwy gydol y cyfnod hir o lywodraethau Ceidwadol rhwng 1951 a 1964 ac yn ystod llywodraeth

Edward Heath, 1970 – 74, pan fu'r Arglwydd Crickhowell yn bwrw ei brentisiaeth seneddol.

Yn ystod ail hanner ei ddarlith bu'n dadansoddi record llywodraethau Thatcher a Major yn eu perthynas â Chymru, a rhoddodd ystyriaeth i ddarlledu, yr iaith Gymraeg, yr economi (yn fwyaf arbennig y diwydiant glo a'r diwydiant dur), buddsoddi economaidd a'r dadeni diwydiannol, a rhaglen y Ceidwadwyr ar gyfer datblygiad y cymoedd. Yna bu'r darlithydd yn edrych ar ddigwyddiadau o fewn y Gymru wledig, iechyd, diwygio llywodraeth leol, tai a swyddogaeth y cwangos. Bu hefyd yn pwysu a mesur cyfraniad unigol yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru rhwng 1979 a 1997. Daeth y ddarlith i ben gydag ystyriaeth o ganlyniad etholiad cyffredinol 1997 yng Nghymru a thynged y Ceidwadwyr bryd hynny.

Atebodd yr Arglwydd Crickhowell nifer fawr o gwestiynau astrus gan aelodau o'r gynulleidfia amrywiol, a diolchwyd i'r darlithydd gan Mr David Melding, aelod o bwyllgor ymgynghorol yr AWG. Gellir darllen testun estynedig y ddarlith, fersiwn sy'n cynnwys llawer iawn o ddeunydd ychwanegol ac sydd yn rhedeg i 23,000 o eiriau, ar dudalennau we LIGC www.ligc.org.uk ac yn rhifyn 2006 o *Gylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*.